# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 29 Ionawr 2024

## SL(6)446 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi) (Cymru) 2024

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau") yn rhoi effaith i ryddhad newydd rhag atebolrwydd am ardrethi annomestig. Mae'r rheoliadau yn rhagnodi amodau sydd i'w bodloni i fod yn gymwys i gael rhyddhad rhwydweithiau gwresogi ac yn diffinio ystyr rhwydwaith gwresogi fel cyfleuster sy'n cyflenwi ynni thermol o ffynhonnell ganolog i leoliadau eraill, at ddibenion gwresogi gofod, oeri gofod, neu wresogi dŵr domestig.

Yn Neddf Ardrethu Annomestig 2023 ("Deddf 2023"), a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 26 Hydref 2023, gwnaed darpariaeth ar gyfer rhyddhad llawn newydd rhag atebolrwydd am ardrethi annomestig i rwydweithiau gwresogi cymwys. Roedd Deddf 2023 yn mewnosod Atodlen 4ZA yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer y rhyddhad newydd rhag ardrethi annomestig i rwydweithiau gwresogi. Bydd y darpariaethau newydd yn cael effaith mewn perthynas â blynyddoedd ariannol o 1 Ebrill 2024.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

**Fe'u gwnaed ar:** 15 Ionawr 2024

**Fe'u gosodwyd ar:** 17 Ionawr 2024

**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2024